**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau, 11 Ebrill 2024**

**a gynhaliwyd yn Hwb Rhuddlan**

Y Cynghorydd Mike Kermode (Maer)
Y Cynghorydd Val Simmons (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Jackie Burnham
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Roedd cynrychiolwyr Bespoke Events ac Eglwys y Santes Fair yn bresennol
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddiolch i bawb am ddod

Cafodd y cyfarfod ei recordio, sain yn unig

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Mike Elgin

**2. Datgan Buddiant**
Dim

**3. Cofnodion**
Roedd Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16/1/2024 wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 9/2/2024.

**4. Cynnydd ar sail y Cofnodion**
Roedd y cais am Grant Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych ar gyfer y digwyddiad ganol haf wedi bod yn llwyddiannus – derbyniwyd grant o £2000, sydd yn llai na'r swm o £8,500 yr ymgeisiwyd amdano. Cafodd hyn ei adrodd yn llawn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod diwethaf, a chymeradwywyd £5,000 ychwanegol i ariannu'r digwyddiad.

**5. Gwledd, dydd Sadwrn, 18 Mai 2024**
Roedd y Maer wedi gwahodd cynrychiolwyr Bespoke Events i roi diweddariad i'r pwyllgor am y cynlluniau ar gyfer y digwyddiad.
Mae 47 stondin wedi archebu lle, ond mae lle i ragor o stondinau. Ar ôl clywed nad oedd Clwb Bowlio Rhuddlan wedi cadw lle, gofynnydd y Cynghorydd Arwel Roberts a fyddai'n

bosibl i'r clwb wneud hyn. Bydd yn rhoi'r manylion cyswllt i Ffion. Cytunodd yr aelodau y dylid codi tâl ar y clwb bowlio am y stondin. **Penderfynwyd**
Cytunodd yr Aelodau na ddylid codi tâl ar y Ganolfan Gymuned gan ei bod yn darparu cyfleusterau am ddim. **Penderfynwyd**
Yn dilyn trafodaeth y llynedd ar fenthyg gazebos a'r ffaith iddynt gael eu dychwelyd wedi'u difrodi, mynegwyd pryder ynglŷn â'u benthyca eleni ac efallai y dylid gofyn i stondinwyr ddod â'u pebyll eu hunain. Gofynnodd y Maer a fyddai'n bosibl roi 2 x gazebo i'r Cyngor ac awgrymodd fod y Cyngor yn yswirio yn erbyn unrhyw ddifrod a achosir eleni ar gyfer stondinwyr sydd heb gazebo; cefnogwyd hyn gan yr Aelodau. **Penderfynwyd**.
Cynigiwyd blaendâl ad-daladwy o £50 gan y Cynghorydd Jackie Burnham i dalu am unrhyw ddifrod, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**
Bydd y Cynghorydd Jackie Burnham yn gofyn i Ysgol y Castell ddechrau'r adloniant am tua 10.30am. Cytunodd yr Aelodau y gallai'r ysgol gael bwrdd raffl am ddim ar y diwrnod i ddiolch am eu cyfraniad. **Penderfynwyd**
Trafododd yr Aelodau pa mor ymarferol fyddai caniatáu i bobl dalu â cherdyn yn ogystal â derbyn arian parod fel tâl mynediad. Cytunodd yr aelodau i ddefnyddio Eventbrite er mwyn hwyluso prynu e-docynnau ac i beidio â chaniatáu taliadau cerdyn. **Penderfynwyd**
Y Clerc fydd yng ngofal y tocynnau arian parod. **Penderfynwyd**
Mewn ymateb i'r syniad o gynnig mynediad am ddim i bensiynwyr, penderfynodd yr Aelodau gadw'r prisiau ar £2 i oedolion, ond bydd mynediad am ddim i blant. **Penderfynwyd**
Bydd stondinwyr yn cael gosod eu stondinau o 8am ymlaen a rhaid iddynt adael y safle erbyn 4pm fel bod modd i'r digwyddiad ddod i ben yn ddiogel am 4pm heb unrhyw draffig yn symud. **Penderfynwyd**
Y Clerc fydd yn cysylltu â Bespoke Events ond gall gyfeirio at y Maer a'r Dirprwy Faer os oes angen. **Penderfynwyd.**
Trafodwyd camau gweithredu eraill a chytunwyd arnynt, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer parcio ceir, dulliau marchnata, agoriad swyddogol gan y Maer, a gwaredu gwastraff.
Diolchwyd i Bespoke Events am eu gwaith caled ar gyfer digwyddiad 2024. Yn ystod cyfarfod diweddar o Gyngor y Dref, penderfynwyd tendro ar gyfer Gwledd yn y dyfodol ond nid yw hyn yn adlewyrchiad o waith y cwmni ond yn hytrach y ffaith bod yr Aelodau yn dymuno cael eu hystyried yn dryloyw wrth ddefnyddio arian cyhoeddus i gyflogi trefnydd digwyddiadau. Bydd y cwmni yn derbyn gwahoddiad i dendro ar yr adeg honno.
Yna gadawodd Bespoke Events y cyfarfod.

**6. Dathlu 80 mlwyddiant D-Day 6/6/2024**

Roedd y Cyngor wedi cytuno i gymryd rhan drwy gynnal gwasanaeth byr yn yr eglwys, ac yna cynnau ffagl am 9.45pm yn unol â chais y Meistr Pasiantau Cenedlaethol. Mewn trafodaeth gyda chynrychiolydd yr eglwys a oedd yn bresennol, penderfynwyd a chytunwyd ar sawl cam yn ymwneud â'r gwasanaeth 30 munud o hyd, gan gynnwys pa wisgoedd clerigol fydd yn cael eu gwisgo, a'r ffaith mai'r eglwys fydd yng ngofal y te/coffi/bisgedi ar ôl y gwasanaeth. **Penderfynwyd**
Y Cyngor fydd yn darparu'r system uwchseinydd, bydd y Cynghorydd Gareth Rowlands yn cynnau'r ffagl, bydd baner y Cyngor yn cael ei harddangos yn yr orymdaith, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r chwaraewr biwgl, a bydd y Maer yn dweud ychydig eiriau wrth i'r ffagl gael ei

chynnau. Bydd y Clerc yn gwirio bod y trefniadau uchod yn cyd-fynd ag arweiniad y Meistr Pasiantau a dderbyniwyd ar gyfer y digwyddiadau cenedlaethol. **Penderfynwyd**

**7. Y digwyddiad ganol haf ar Gae'r Llyngesydd 3/8/2024**
Fel y nodwyd yn Eitem 4, y gyllideb ar gyfer cynnal y digwyddiad uchod yw £7,000 ac atgoffwyd y Cyngor mai diwrnod i ddathlu gwaith gwirfoddol fydd hwn yn bennaf. Awgrymodd y Clerc y gellid rhentu pabell fawr lle gallai'r holl grwpiau gwirfoddol a fydd yn derbyn gwahoddiad i gymryd rhan arddangos eu gwaith ac o bosibl recriwtio gwirfoddolwyr newydd, a dwy babell lai ar gyfer yr adloniant, ac y gellid darparu ardal chwarae meddal i ddiddanu'r plant. Amcangyfrifir y bydd yr uchod yn costio £4,800 gan adael £1,200 ar gyfer gweithgareddau neu weithredoedd eraill. **Penderfynwyd.**
Cytunodd yr Aelodau ar amser y digwyddiad, sef rhwng 10am a 3pm. **Penderfynwyd**
Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod y clwb bowlio yn mynd i drefnu cystadleuaeth ar gyfer y plant yn y bore a lluniaeth barbeciw drwy'r dydd.
Roedd y Maer yn dymuno annog darparwyr bwyd/diod lleol a bach i gymryd rhan a dywedodd fod cymorth ariannol ar gael os oes angen. **Penderfynwyd**
Ni chaniateir parcio yn ardal Cae'r Llyngesydd. **Penderfynwyd**
Yna, enwyd rhestr hir o'r grwpiau gwirfoddol posibl a allai gymryd rhan, sy'n rhy niferus i'w henwi yn y Cofnodion hyn, ond atgoffwyd yr Aelodau fod y digwyddiad yn cael ei gynnal i godi ymwybyddiaeth am wirfoddoli a recriwtio gwirfoddolwyr, ac nid er mwyn cynhyrchu incwm yn unig drwy werthu unrhyw nwyddau sydd ganddynt.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod.

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf** 11 Mehefin am 7.30pm yn yr Hwb

**Llofnodwyd…………………………………………………………………………..Y Cynghorydd Mike Kermode**

**Dyddiad…………………………………….**